CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION - IONAWR 2015

DYDDIAD	Nos Fercher, 21 Ionawr
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	Ysgol Rhostryfan

1.	**Croeso** **Rhoddwyd croeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd. Yn bresennol roedd:** Jason Hunt, Neal Williams, Elin Evans, Michelle Williams, Gwilym Ll Williams (Cadeirydd), Gwilym V Thomas. Hefyd yn bresennol roedd Caryl E Lewis (Clerc).
2.	**Ymddiheuriadau** Nerys Evans, Tom Ellis, Rhys Owen, Elwyn Jones, Cyng. Aeron M Jones. Hybysodd y clerc fod Tom Ellis wedi torri ei goes, roedd aelodau yn awyddus i ddymuno gwellhad buan iddo.
3.	**Datgan Buddiant** Dim
4.	**Cadarnhau cofnodion 19 Tachwedd 2014** Cytunwyd fod yn gofnod cywir, dim materion yn codi.
5.	**Materion i'w trafod:** a. **Tendrau yn dod i ben Mawrth 2015– Torri gwair mynwent a Llwybrau a clirio cysgodfannau bws.** Cytunwyd fod angen ail-dendro am 3 blynedd. Nodwyd fod y cytundebau presennol eisioes wedi eu hymestyn am flwyddyn. Bydd angen hysbysebu, rhoi o dan newyddion pentref yn yr Herald, Lleu a hefyd ar y safle gwe. Cytunwyd fod angen addasu rywfaint ar y dogfennau ac i wneud hynny yng nghyfarfod Chwefror. Gwadd tendrau i mewn erbyn dechrau mawrth a'i trafod yn cyfarfod mawrth. Aelodau yn hapus i'r clerc dalu am hysbyseb yn yr Herald os oes diffyg diddordeb. b. **Newid manylion banc** Clerc yn cadarnhau fod y newidiadau wedi eu gwneud i'r mandate ond fod angen llythyr pellach yn cadarnhau cyfeiriad y clerc ac angen i'r llythyr gael ei lofnodi gan 2 aelod yn ogystal ar clerc. c. **RO** - **Japanese knotweed - pa grantiau sydd ar gael** Gan fod RO yn absennol, cytunwyd i ohirio y mater nes cyfarfod Chwefror. d. **AMJ** – **Angen ffurfioli trefniadau e.e. cyfansoddiad a pholisiau. Cynnig fod is-bwyllgor yn edrych ar ddatblygu cynllun 3 blynedd a pholisiau** Gan fod AMJ yn absennol cytunwyd i ohirio'r mater nes cyfarfod Chwefror. Yn y cyfamser, Clerc i edrych ar beth sydd gan Unllais Cymru ac ardaloedd eraill. Nodwyd fod prosiect y fynwent yn dymor hir ac angen ei nodi mewn cynllun. e. **Set wag Rhosgadfan** MW a GVT wedi holi unigolyn lleol ond nid yw gyda diddordeb. Cytunwyd y bydd rhaid hysbysebu felly ac i roi hysbyseb cymraeg yn y Lleu. f. **Hysbysfwrdd Dinas – Angen penderfynu ar safle** Er fod caniatad i'w leoli ar safle capel glanrhyd cytunwyd mai'r safle bws (ochr y garej) byddai'r lleoliad gorau. Clerc wedi gwneud ymholiadau a Cyngor Gwynedd yn cadarnhau y bydd angen rhoi cais cynllunio i mewn a cael cynllun safle. Clerc i holi RO sut i fynd o amgylch cael cynllun safle, yna rhoi cais i mewn. Cytunwyd fod angen hysbysfwrdd newydd gan fod yr hen

un wedi pydru**.**

g. **Safle Gwe**
Clerc yn cadarnhau fod y safle bellach yn fyw ond fod gwaith pellach i'w wneud i ychwanegu polisiau ayb unwaith y byddwn wedi eu diweddaru.

h. **RO** – **Cynnig i dreialu tudalen Facebook**
Cytundeb y gallai tudalen Facebook fod yn agored i gamddefnydd, ar hyn o bryd mae'n ddigonol cael gwefan. Ond mae bosib edrych ar rhoi linc o gwefan Cyngor Gwynedd i safle y Cyngor Cymuned.

i. GVT – **lamp tu allan i muriau Rhosgadfan angen ei drwsio a lamp tu allan i Pen y ffordd – angen torri'r coed sydd o dan y lamp.**
Clerc wedi adrodd ar y ddau fater i'r Cyngor. Nodwyd fod y lamp tu allan i Muriau wedi ei drwsio ond fod y coed yn parhau o dan lamp Pen y ffordd (wrth Glanaber). Mae Adran Priffyrdd y Cyngor wedi cadarnhau eu bod wedi logio y mater hwn ac y byddent yn edrych mewn iddo. Fel arall, os nad ydy Cyngor Gwynedd yn gallu datrys y mater bydd angen cysylltu gyda Scottish Power.

j. **AMJ** - **Waun Bant – wedi cau'r llwybr eto yn cefn y ty a wedi gadael llwyth o gerrig ar y llwybr o flaen y ty (wrth giatiau). AMJ wedi cwyno ond angen i'r Cyngor Cymuned gefnogi drwy lythyru'r Swyddog Llwybrau.**
Clerc wedi llythyru'r cyngor, llythyr wedi ei dderbyn yn ol, cyngor methu gwneud dim byd oherwydd yn lwybr answyddogol ond mae opsiwn i wneud cais i geisio ei gofrestru fel llwybr swyddogol. Clerc i wneud cais am y ffurflenni ac i rannu copi o'r llythyr gyda NE. Adrodd yn ol yn cyfarfod nesaf.

k. **GVT** – **problem gyda defaid ar y lon yn y pentref, peryglus**.
Llythyr wedi dod gan John Griffith, cymdeithas Pori Uwchgwyrfai yn ymddiheuro ac yn nodi fod y ffens rwan wedi ei drwsio.

l. TE – **Lon eifion – Angen gwaith ffensio gwell - 2 bont ddim yn bell o capel glanrhyd o sdesion glanrhyd, hen bontydd rheilffordd, dim byd yn nadu plan rhag mynd i lawr i'r afon. Lot o ddiffygion ar hyd y lon, crash barriers etc…wedi malu.**
Clerc wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd ac wedi derbyn ymateb gan Robin Perkins yn cadarnhau nad oes arian ar hyn o bryd i godi ffens ond ei fod wedi ei roi ar y rhestr waith. Roedd yn cytuno fod angen rhoi sylw i'r crash barriers hefyd ac y bydd rhaid adnewyddu rhain yn y flwyddyn ariannol nesaf.

m. **NE** – **Tap dwr mynwent, dwr yn araf yn dod ohono**
Clerc yn adrodd fod Dwr Cymru wedi bod draw i archwilio ac dim problemau o'i hochr nhw gan fod digon o ddwr yn y 'stop tap' felly problem sydd gyda'r tap ei hun neu y peipiau. Penderfynu i drafod yn y cyfarfod nesaf pan fydd NE yn bresennol.

n. **JH** – **Coed wedi disgyn lawr llwybr Bryngwyn am Tryfan, angen rhoi sylw iddo, gallai rhywun gael ei brifo.**
Nododd y clerc fod EJ yn rhoi sylw i'r mater**.**

o. **EJ** – **coed yn tyfu dros arwyddion angen eu torri - fyny o ffrwd cae du, arwydd y bont wedi ei orchuddio gan goed, problem yn gyffredinol yn yr ardal.**

	Clerc wedi llythyru Cyngor Gwynedd. Meirion Williams wedi ymateb yn adrodd fod arolygwyr wedi bod yno i dorri'r coed ac y byddent yn arolygu arwyddion eraill o amgylch yr ardal maes o law. Hefyd nodwyd fod polion BT newydd yn amharu ar weledd gyrrwyr ac felly bydd yn gyrru'r gwyn ymlaen i'r Gwasanaeth Gofal Stryd a Thrafnidiaeth er sylw a gweithrediad.	
6.	**Derbyn adroddiadau** **GVT –** Yn dilyn llythyr o gwyn wnaed i Heddlu Gogledd Cymru yn sgil mater swn saethu tra'n ffilmio yn Rhosdadfan. Nododd GVT ei fod wedi cael cais i ymweld a Sargeant yn safle heddlu Caernarfon i dderbyn ymddiheuriad ac eglurhad. Nodwyd fod camgymeriadau mewnol wedi eu gwneud a diffyg cyfathrebu pan yn newid shifftiau, felly doedd y Sargeant ar shifft y noson honno ddim yn ymwybodol o'r rhybydd y byddai swn saethu. Nododd y Clerc nad oedd ymddiheuriad ysgrifenedig wedi cyrraedd eto. Cytunodd Aelodau y bydd angen cyhoeddi'r ymddiheuriad yn yr Herald.	
7.	**Is-bwyllgorau** Dim cyfarfod wedi bod.	
8.	**Materion Ariannol**	
	Cyfri Cadw:	3627.13
	Cyfri Siec:	12135.33
	Taliadau:	
	Cyflog Clerc - Ionawr	402.50
	Cyllid y Wlad Ionawr	90.00
	Ad-daliadau Clerc - Ionawr:	
	Desg	39.00
	McAfee Antivirus	19.99
	Ink printer – printerinks.com	36.12
	Sion Owen – torri gwair fynwent	210.00
9.	**Materion Cynllunio** a. **Cais Is Horeb Rhostryfan C14/1226/24/LL. Newid siop yn ol mewn i rhan o'r ty.** Dim sylw	
10.	**Gohebiaeth:** a. **Llythyr gan Cymdeithas Pori Uwchgryfai** Ymddiheuriad am ddefaid yn crwydro drwy'r pentref ac nodi fod y ffens rwan wedi ei drwsio ar derfyn cae ger Gors, Rhosgadfan. b. **Llythyr gan Heddlu Gogledd Cymru** Cwyn Rhosgadfan (ffilm Bolywood) - Llythyr yn cydnabod y gwyn wedi dod mewn (gweler mater 6.) **c. Ymholiadau gan H.Griffith Rhosgadfan** Pryderon am gyflwr llwybrau Cerrig Sais Rhosgadfan. Nodwyd fod Gerallt Jones swyddog llwybrau yn ymweld. Ymholiad am finiau ailgylchu Rhosgadfan a cais i gael sgipiau. Nododd Aelodau fod ymholiadau wedi ei wneud yn y gorffennol gyda Cyngor Gwynedd ar cais wedi ei wrthod. **d. Llythyr gan Cyngor Gwynedd – Praesept** Clerc i ymateb. Nododd Aelodau eu bod wedi cytuno i'w gadw yr un fath a llynedd. **e. Ymholiad gan Gerallt Jones Swyddog Llwybrau** Ymholiad am gynllun lotment Rhostryfan, cytunwyd i'r clerc ei gyfeiro at Craig ab Iago sydd yn cydlynu'r cynllun. **f. Ceisiadau am nawdd**	

	Nododd y clerc fod dipyn o geisiadau wedi eu derbyn yn barod. g. **Llythyr gan Swyddfa'r Post** Ymddiheuro am yr oedi mewn adfer gwasanaeth lleol yn Rhosgadfan.
11.	**Materion Cyfarfod Nesaf** **NW–** Pryderon am gyflwr wal (o'r clwb) sy'n disgyn i'r lon, nodwyd mai'r perchennog ydy Ian Spice, 27 Treflan, Rhosgadfan. Angen llythyru'r perchennog a Chyngor Gwynedd yn adrodd ar hyn**.** **GVT –** Parcio yn siop chips Rhostryfan yn warthus a pheryglus, yn creu problemau i bawb ac yn enwedig bysiau, mae angen llinnellau melyn dwbl. Clerc i yrru llythyr at yr Heddlu a Cyngor Gwynedd yn gofyn beth fedr nhw wneud amdano**.** **GVT –** Angen bocs grit yn ben allt dafarn, Rhosgadfan, wedi torri yn racs. Mae rhai yn ymyl capel bryn ond dim byd ar dop yr allt. **GVT –** speed humps, wedi gwisgo ar yr ochrau ac yn gwneud difrod i geir, maent yn arbennig o ddrwg yn ardal Rhosgadfan. Cyngor wedi eu gosod, dyla bod nhw yn eu cynnal. **EE –** Angen atgoffa grwpiau i gyflwyno ceisiadau am nawdd a rhaid cael mantolen. **JH –** Adrodd fod Lamp Bro Wyled wedi ei drwsio. Lamp braichmelyn, Rhosgadfan rwan angen ei drwsio hefyd**.** **MW –** Container o flaen Bro Cadfan dal yno ers blwyddyn ac yn drewi a creu llanast, angen ei symud oddi yno. Angen llythyru Cartrefi Cymunedol Gwynedd**.** **MW –** Mae tua 22 o gwn saethu rhwng Rhosgadfan a Rhostryfan, mae'r swn cyfarth yn cadw pobl ar ddeffro drwy'r nos. Clerc i adrodd wrth Adran Iechyd yr Amgylchedd.
	Daeth y cyfarfod i ben am 8:45pm **Dyddiad Cyfarfod nesaf: 18 Chwefror 2015**